



TROSEDDAU CASINEB

Gallwch chi wneud rhywbeth am y peth!



TROSEDDAU CASINEB

Gallwch chi wneud rhywbeth am y peth!




Helo, Croeso i Gymru! Rydym yn gwybod fod pobl sydd newydd symud i Gymru yn dod â diwylliannau, doniau a medrau penigamp gyda nhw sy'n gallu cyfoethogi ein cymdeithas. Felly, sut ydych chi'n gweld bywyd yng Nghymru?

Mae Cymru yn wlad brydferth ac mae'r mwyafrif o bobl yn gyfeillgar iawn ond mae yna rai nad ydynt felly.


O!... Pam? Oes rhywbeth wedi digwydd?

Peth amser yn ôl ar y bws, dechreuodd rywun fy ngalw yn enwau anweddus, a dweud y dylwn i fynd yn ôl i fy ngwlad. Pan ofynnais iddo i roi'r gorau iddi, taflodd rhywbeth ataf fi. Grawnwin oeddau nhw dwi'n meddwl. Roeddwn yn teimlo cymaint o gywilydd ac ofn, doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud.



Am ofnadwy, dwi ddim yn synnu eich bod chi'n teimlo'n ddrwg. Er rydych yn gwybod nad eich bai chi oedd o? **Digwyddiad Casineb yw hwn.** Gallwch adrodd y peth i'r Heddlu. Os ydynt yn meddwl bod y digwyddiad yn drosedd gasineb, gallent weithredu. Byddant yn gwrandao arnoch chi, yn cynnig cefnogaeth ac yn asesu a ellir categoreiddio'r digwyddiad fel Trosedd Gasineb. Hyd yn oed os na allant ei categoreiddio fel Trosedd Casineb, mae'n beth da i chi ei adrodd i'r heddlu gan eich bod yn gallu cael cefnogaeth. Ni ddylech orfod goddef digwyddiadau fel hyn!

A allaf fynd at yr Heddlu? Beth yw Trosedd Gasineb?



Elyniaeth tuag atoch oherwydd eich ethnigrwydd, crefydd, ffydd, anabledd, hunaniaeth drawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol yw **troseddau casineb neu ddigwyddiadau casineb.** Gallwch adrodd y mater i'r heddlu pa un ai atoch chi y cyfeiriwyd y casineb neu eich bod wedi gweld y peth yn digwydd i rywun arall. Gallent fod yn aelod o'r teulu, eich ffrindiau, rhywun yr ydych newydd eu cyfarfod neu ddieithryn.

Gall troseddau casineb ddigwydd yn unrhyw le, gallant ddigwydd yn eich cartref, ar y bws, yn y parc neu yn yr ysgol neu brifysgol.

FFAITH:

Gweithred anghyfreithlon o elyniaeth yw Trosedd Gasineb oherwydd pwy ydych chi neu'r hyn rydych yn ei gynrychioli.

Ond dwi'n meddwl na jyst bod yn wirion oedd y boi?



Lluniodd farn amdanoch chi ac ymosododd arnoch chi oherwydd y farn honno. Nid yw hynny'n dderbyniol yn y Deyrnas Unedig. **Gall gwneud hynny hefyd fod yn anghyfreithlon ac yn drosedd!** Mae gennych hawl i deimlo'n ddiogel yn eich cartref, yn eich cymuned ac mewn mannau cyhoeddus.

Mae yna nifer o bethau sy'n gallu digwydd i bobl sy'n ymddwyn yn annerbyniol ac mae'r rhain yn dod yn Ddigwyddiadau Casineb pan maent yn digwydd oherwydd bod rhywun wedi llunio barn amdanoch chi.

Gall y rhain gynnwys:

- Cael eich gwthio, eich aflonyddu neu eich bygwth
- Rhywbeth yn cael ei daflu atoch neu rywbeth drwg yn cael ei bostio trwy eich blwch llythyrau
- Rhywun yn mynd atoch mewn modd bygythiol
- Ystumiau dieiriau sarhaus neu ddynwarediad wedi'i anelu atoch chi
- Rhywun yn poeri arnoch, yn eich taro neu yn eich cicio
- Rhywun yn galw enwau anwedus arnoch, yn gwneud hwyl am eich pen neu yn cyfeirio jôcs cas atoch chi
- Eich eiddo yn cael ei ddifrodi neu ei ladrata
- Cymydog yn ymosod arnoch chi
- Llosgi bwriadol neu ddadleuon gyda chymdogion
- Cael eich bwlio oherwydd eich anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol.

Iawn, ond sut wyf yn adrodd am ddigwyddiad?



Wel, mewn argyfwng, gallwch ffonio 999 i adrodd am ddigwyddiad os:

- Yw'r digwyddiad yn digwydd y funud honno ac rydych angen cefnogaeth mewn argyfwng
- Mae eich ymosodwr gerllaw
- Rydych yn teimlo bod eich bywyd chi neu fywyd rhywun arall mewn perygl
- Mae trais yn cael ei ddefnyddio neu rydych yn teimlo dan fgythiad.

Ffoniwch 101 os

- Ddigwyddodd y digwyddiad peth amser yn ôl a'ch bod eisiau ei adrodd i'r Heddlu
- Nid yw'r unigolyn a ymosododd arnoch gerllaw bellach
- Nid ydych yn teimlo bod eich bywyd chi neu fywyd rhywun arall mewn perygl
- Nid oes yna unrhyw drais yn cael ei ddefnyddio yn eich erbyn chi.

FFONIWCH 999 NEU 101

Cofiwch ddweud "Rwyf eisiau adrodd am drosedd gasineb."

Os wyf yn adrodd y digwyddiad i'r Heddlu, beth fydd yn digwydd wedyn?




Pan fyddwch yn adrodd am drosedd gasineb, bydd yr heddlu yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau eich diogelwch. Byddant yn dod i'ch gweld chi, oni bai ei bod yn well gennych chi ddod i orsaf yr heddlu i'w gweld nhw neu siarad â rhywun dros y ffôn, a bydd eich manylion yn cael eu cymryd mewn modd cyfrinachol. Bydd yr heddlu yn gwrando ar eich disgrifiad chi o'r digwyddiad ac yn cynnig cefnogaeth sefydliadau eraill i chi megis Cymorth i Ddioddefwyr trwy gydol yr ymchwiliad. Byddant hefyd yn edrych ar ffyrdd i atal yr Unigolyn rhag cysylltu â chi os oes angen. Mae gan bedwar heddlu Cymru swyddogion penodedig a fydd ar gael i'ch helpu a'ch cefnogi chi.

Ni fydd disgwyl i chi siarad â, wynebu na chael cysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn, ond efallai bydd angen i chi:

- Roi datganiad
- Cyflwyno unrhyw dystiolaeth sydd gennych megis lluniau ffôn symudol neu CCTV, anafiadau neu ffotograffau
- Rhoi datganiad effaith ar ddioddefwyr yn disgrifio sut ydych yn teimlo am yr hyn ddigwyddodd i chi a sut mae'r peth wedi effeithio ar eich bywyd a
- Rhoi tystiolaeth mewn llys gyda chymorth gan gynrychiolydd o Gymorth i Ddioddefwyr.

Beth os nad wyf yn teimlo fel adrodd am y digwyddiad? Efallai y bydd adrodd am y digwyddiad yn gwneud pethau'n waeth?



Os nad ydych eisiau trafod y digwyddiad gydag unrhyw un, gallwch wneud adroddiad ar-lein ar wefan Cymorth i Ddioddefwyr www.reporthate.victimsupport.org.uk/hate-crime/ o'r fan hon, gallwch ddewis eich iaith ddewisol, llenwi'r ffurflen a'i e-bostio i: hate.crimewales@victimsupport.org.uk neu ffonio **0300 303 1982**



COFIWCH:

Nid oes raid i chi siarad wyneb yn wyneb â rhywun i adrodd am Drosedd Gasineb, gallwch wneud adroddiad arlein.

Rwyf yn geisydd lloches ac nid wyf eisiau tynnu sylw at fy hun? Nid wyf eisiau unrhyw drwbl ac nid wyf eisiau gwneud drwg i fy nghais am loches.



Eich heddlu lleol sy'n delio â throseddau a digwyddiadau casineb ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar eich cais am loches. Os yw rhywun yn ceisio eich brifo oherwydd pwy ydych chi neu pwy maen nhw'n meddwl ydych chi, nid eich bai chi yw hynny. Bydd yr heddlu yn gweithio gyda chi i sicrhau nad yw'r ymchwiliad yn tarfu ar eich apwyntiadau cais am loches ac ni fydd manylion eich adroddiad am Drosedd Gasineb yn cael eu pasio ymlaen i'r swyddog yn y Swyddfa Gartref sy'n delio â'ch cais.

Hefyd, ni fydd adrodd am ddigwyddiad casineb yn cael effaith ar eich llety na'ch cymorth tai, ond os oes angen llety mwy diogel arnoch oherwydd y digwyddiad casineb, byddwch yn cael cefnogaeth i drefnu hynny.



Beth os nad wyf eisiau adrodd am y digwyddiad fy hun, a all rhywun arall adrodd am y digwyddiad ar fy rhan?



Gall, ffoniwch **Cymorth i Ddiodefwr** ar **0300 303 1982** a byddan nhw'n adrodd am y digwyddiad ar eich rhan. Gallwch hefyd ofyn i asiantaeth cymorth leol i wneud adroddiad ar eich rhan. Mae'r asiantaethau sy'n gallu helpu yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Cyngor ar Bopeth a'r Groes Goch Brydeinig

FFONIWCH CYMORTH I DDIODDEFWYR AR 0300 303 1982 a byddan nhw'n gwneud adroddiad ar eich rhan.

A allaf adrodd am Ddigwyddiad Casineb hyd yn oed os na allaf roi disgrifiad clir o'r unigolyn a ymosododd arnaf?



Gallwch. Gallai unrhyw wybodaeth a allwch ei roi am ddigwyddiad fod yn bwysig a bod yn gysylltiedig â digwyddiad tebyg sydd wedi digwydd i rywun arall yn eich ardal. Efallai bod yr heddlu yn ymwybodol o'r unigolyn dan sylw ac efallai byddant yn gallu cael tystiolaeth yn ymwneud â'r digwyddiad trwy luniau CCTV neu ffôn symudol. Efallai y byddant hyd yn oed yn gallu atal y digwyddiad rhag datblygu i fod yn droseddau casineb mwy difrifol. Felly, da chi, rhowch wybod i rywun am y digwyddiad



Beth os nad yw'r Heddlu yn ystyried y digwyddiad yn Drosedd Casineb?



Os nad yw'r digwyddiad yn cael ei ystyried yn Drosedd Casineb, bydd yr heddlu yn rhoi gwybod i chi pa gamau maen nhw wedi'u cymryd a bydd Cymorth i Ddiodefwyr yn parhau i'ch helpu chi.



Oes rhaid i mi brofi fod y digwyddiad yn Drosedd Casineb?

Na. Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich targedu oherwydd gelyniaeth tuag at eich hil, crefydd, anabledd cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol, yna mae'n RHAID i'r Heddlu drin y digwyddiad fel trosedd gasineb. Hyd yn oed os nad yw'r digwyddiad yn drosedd (byddai'r heddlu yn galw hyn yn ddigwyddiad casineb) bydd yr heddlu yn parhau i ymchwilio i'r digwyddiad ac yn cymryd camau i'w atal rhag digwydd a byddwch yn cael cefnogaeth gan swyddog penodedig.



COFIWCH:

Gall yr Heddlu ddefnyddio lluniau ffôn symudol neu recordiadau o gamerâu stryd i gael tystiolaeth i gefnogi eich adroddiad.

Pam ei bod mor bwysig adrodd am droseddau casineb?



Mae yna lawer o droseddau casineb sydd ddim yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Pan fyddwch yn adrodd am drosedd gasineb, mae'n gwneud gwahaniaeth i chi, eich ffrindiau a'ch teulu a'ch cymuned. Drwy adrodd am ddigwyddiadau, gallwch:

- Helpu i'w rhwystro rhag digwydd i rywun arall
- Helpu i amlygu meysydd sy'n destun pryder i geiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Helpu'r heddlu i gael gwell dealltwriaeth o'r lefel o droseddau casineb yn eich ardal a sut i ddelio hefo hynny a
- Gwellu'r ffordd mae'r heddlu yn ymateb i droseddau casineb.

Os nad ydych eisiau rhoi eich manylion unigol, dywedwch wrth yr heddlu beth ddigwyddodd a gallant ddefnyddio'r wybodaeth i fonitro troseddau casineb yn eich ardal, gwneud eich cymuned yn fwy diogel, a helpu pobl i deimlo'n llai ynysig ac ofnus am beth ddigwyddodd iddyn nhw. Mae'r heddlu yn cofnodi'r holl droseddau casineb sy'n cael eu hadrodd iddyn nhw. Efallai na fydd yr hyn a ddigwyddodd yn mynd i'r llys, ond, mi fyddan nhw yn parhau i weithio gyda chi ac asiantaethau cymorth troseddau casineb eraill i atal digwyddiadau rhag gwaethygu.

**Beth os nad yw'r Heddlu yn gwrando arnaf i?
Pan gafodd fy ffrind ei ymosod gydag wyau ar
y stryd, cymerodd yr heddlu ddatganiad, ond ni
wnaethant wneud dim mwy na hynny.**



Os ydych yn teimlo na wnaeth y swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu wrando arnoch chi neu eich trin yn deg, **gallwch wneud cwyn am y peth**. Gallwch wneud cwyn yn eich gorsaf heddlu lleol a gofyn iddyn nhw gyfeirio eich cwyn i'r Adran Safonau Proffesiynol. Mae gan bob gwasanaeth heddlu'r adran hon. Gallwch drafod y mater â'ch Aelod Seneddol (AS) neu Aelod Cynulliad (AC) lleol, a bydd ef neu hi yn gallu eich helpu i wneud cwyn, neu gallwch eich helpu i wneud cwyn neu gysylltu â Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) trwy fynd i **www.ipcc.gov.uk/cy**. Mae croeso i chi hefyd gwyno trwy'ch cyfreithiwr os oes gennych un.

I ddod o hyd i'ch AS lleol ewch i **www.parliament.uk** a chlicio ar y cyswllt.

I ddod o hyd i'ch AC lleol ewch i **www.senedd.cynulliad.cymru/mgFindMember.aspx**

Gall rhai asiantaethau adrodd am ddigwyddiadau casineb ar eich rhan:

Cyngor ar Bopeth: 08444 772 020

Y Groes Goch Brydeinig: 01633 245 774

Cymorth i Ddiodefswyr: 0300 303 1982

Cyngor Ffoaduriaid Cymru: 02920 489 800

Diolch i chi am eich cymorth. Rwyf yn dal i deimlo'n ddrwg am yr hyn ddigwyddodd, er rwyf hefyd yn teimlo'n fwy hyderus i wneud rhywbeth am y peth nawr.



Croeso siŵr! Cofiwch y gallwch adrodd am y digwyddiad a chael y gefnogaeth rydych ei hangen i wneud hynny ac efallai y byddwch yn helpu'r Heddlu i rwystro'r peth rhag digwydd i rywun arall!



Cydnabyddiaeth

Mae'r daflen Troseddau Casineb hon yn ganllaw i ddeall troseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru, sut i adrodd am ddigwyddiadau a beth allwch ei wneud i'w rhwystro rhag digwydd. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn falch i rannu'r wybodaeth hon â chi ac mae'n ddiolchgar iawn i'r sefydliadau a'r ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi gweithio gyda ni i helpu i greu'r daflen hon.

Diolch



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government